
Archwilio Cymru
Audit Wales

# Llywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ebrill 2024



Paratowyd a chyhoeddwyd yr adroddiad hwn dan adran 41 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru ac yn cynnal astudiaethau ohonynt, gan gynnwys o ran sut y gallant wella'r modd y maent yn defnyddio adnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, gan gynnwys cyrff y GIG, ac mae ganddo'r pwerau i adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau a'r modd y gallent eu defnyddio'n well.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y Senedd a'r llywodraeth.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sydd ill dau'n endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2024

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os ydych yn ei ailddefnyddio, rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir a rhaid iddo beidio â bod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi enwi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/ neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch hefyd ysgrifennu atom yn Gymraeg neu yn Saesneg a byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae'r model llywodraethu ar gyfer Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn darparu fframwaith eglur i gyflawni eu swyddogaethau allweddol, ond mae gwendidau yn y modd y caiff ei roi ar waith yn creu risg i lywodraethu da.

## Adroddiad cryno

Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham 4

Yr hyn a ganfuom 6

Ffeithiau allweddol am Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol 6

Beth yw 'llywodraethu da'? 8

Argymhellion 11

## Adroddiad manwl

Mae gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol fodel llywodraethu eglur 13

Mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn cydnabod gwerth cydweithio ond mae llywodraethu trwy strwythurau partneriaethau cymhleth yn dwyn heriau 16

Mae gwasanaethu gofynion llywodraethu'n creu risg o roi pwysau ar gapasiti swyddogion 17

Ceir risg bod gwendidau mewn prosesau i ddethol aelodau etholedig yn tanseilio llywodraethu da 18

Mae gan Lywodraeth Cymru broses gymharol drylwyr ar gyfer penodi aelodau, ond cyfyngedig yw'r cymorth parhaus i aelodau a benodwyd 20

Mae'n aneglur i ba raddau y mae aelodau'n cael eu dwyn i gyfrif am eu cyfraniad at lywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol 22

Mae gwendidau o ran sut y mae'r model llywodraethu'n cael ei roi ar waith yn codi cwestiynau ynghylch ei addasrwydd 23

## Atodiadau

1 Cwmpas, ymagwedd a dulliau'r archwiliad 25

# Adroddiad cryno

## Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fel rhan o raglen astudiaethau llywodraeth leol yr Archwilydd Cyffredinol yn 2022-23, fe wnaethom adolygu’r trefniadau llywodraethu ar draws Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol (APCau) yng Nghymru. Fe wnaeth ein hadolygiad ystyried pum elfen allweddol:

- model a strwythurau llywodraethu;
- swyddogaethau a chyfrifoldebau allweddol o fewn y strwythurau hyn;
- diwylliant llywodraethu;
- seilwaith i gefnogi llywodraethu effeithiol; a
- threfniadau i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd llywodraethu.


2 Mae’r adroddiad hwn yn cau pen y mwdwl ar ran gyntaf adolygiad dau gam i ystyried y trefniadau llywodraethu ar draws Awdurdodau Dibenion Arbennig yng Nghymru. Ceir dwy garfan o Awdurdodau Dibenion Arbennig yn sector llywodraeth leol Cymru, sef y tri APC a’r tri Awdurdod Tân ac Achub (ATA). Mae ail gam yr adolygiad hwn – sy’n bwrw golwg ar y trefniadau llywodraethu ar draws y tri ATA – wedi’i gynnwys fel rhan o’n rhaglen waith ar gyfer 2023-24.

3 Fe wnaethom archwilio trefniadau llywodraethu APCau am nifer o resymau. Yn gyntaf, mae themâu allweddol a adnabuwyd trwy ein hadolygiadau mewn APCau dros y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys cyfleoedd i gryfhau trefniadau llywodraethu. Er enghraifft, mewn adolygiadau diweddar rydym wedi amlygu:

- capasiti swyddogion sydd dan bwysau;
- tensiwn rhwng blaenoriaethau allweddol wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- dibyniaeth ar gyllid grant byrdymor;
- sefyllfaoedd ariannol sy’n gryn her a defnydd o gronfeydd wrth gefn; ac
- anawsterau gyda rheoli perfformiad partneriaethau.

4 Yn ail, mae'r holl APCau yng Nghymru wedi bod yn gweithredu â chyllidebau sy'n lleihau dros y 15 mlynedd ddiwethaf. Dangosir hyn orau yn y newidiadau i'w gwariant alldro refeniw rhwng 2008-09 a 2022-23. Er enghraifft, mewn termau real, roedd cyfanswm y gwariant alldro refeniw[1] ar gyfer y tri APC ar y cyd yn 2022-23 26% yn is nag oedd yn 2008-09. Mae **Arddangosyn 1** yn dangos y gwahaniaeth ar draws y tri APC. Mae'r amgylchedd gweithredu hwn sy'n her yn gwneud llywodraethu da'n bwysicach byth i reoli'r gostyngiadau yn y cyllid mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian.

**Arddangosyn 1: gwariant alldro refeniw Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol mewn termau real rhwng 2008-09 a 2022-23**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o Wariant alldro refeniw, yn ôl awdurdod (llyw.cymru), wedi'i addasu yn unol â Datchwyddyddion Cynnyrch Domestig Gros Trysorlys EF a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023

5 Yn drydydd, rydym wedi amlygu materion llywodraethu sylweddol yn APC Bannau Brycheiniog dros y blynyddoedd diwethaf.[2] Gallai'r materion hyn fod yn rhannol gysylltiedig â'r model llywodraethu ehangach.

1 Costau rhedeg gwasanaethau awdurdod lleol megis staffio, gwresogi, goleuadau a glanhau, ynghyd â'r gwariant ar nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddir yn y flwyddyn yw gwariant refeniw.

2 Archwilio Cymru, Cyflawni'r Rhaglen Newid, Chwefror 2021

6 Mewn cyd-destun ehangach, mae gwendidau mewn trefniadau llywodraethu wedi cael eu hamlygu mewn parciau cenedlaethol yn Lloegr hefyd. Er enghraifft, canfu'r adroddiad Landscapes Review[3] heriau a oedd yn ymwneud â maint, cyfansoddiad a diben aelodaeth APCau, yn ogystal ag mewn deddfwriaeth a chyllid. Fe wnaeth yr adolygiad gyfres o argymhellion i Lywodraeth y DU, a dderbyniwyd yn rhannol.[4]

## Yr hyn a ganfuom

7 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A oes gan awdurdodau lleol dibenion arbennig yng Nghymru drefniadau llywodraethu effeithiol sy'n ategu deilliannau da ar gyfer dinasyddion?

8 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: mae'r model llywodraethu ar gyfer Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn darparu fframwaith eglur i gyflawni eu swyddogaethau allweddol, ond mae gwendidau yn y modd y caiff ei roi ar waith yn creu risg i lywodraethu da.

## Ffeithiau allweddol am Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol

9 Ardaloedd o dir sydd wedi'u dynodi'n dirweddau gwarchodedig oherwydd eu Nodweddion Arbennig yw parciau cenedlaethol.

10 Mae gan yr holl barciau cenedlaethol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban restr wedi'i diffinio'n glir o Nodweddion Arbennig. Mae'r rhain yn nodi beth sy'n gwneud yr ardal yn arbennig ac unigryw. Mae'r cyfuniad o'r Nodweddion Arbennig hyn yn ganolog i ddynodiad yr ardal yn barc cenedlaethol.

11 Ledled y DU ceir pymtheg o barciau cenedlaethol, y mae tri ohonynt yng Nghymru – Bannau Brycheiniog, Eryri ac Arfordir Penfro (**Arddangosyn 2**).


12 Yn ei Rhaglen Lywodraethu[5], mae Llywodraeth Cymru'n nodi ei bwriad i ddynodi parc cenedlaethol newydd, yn seiliedig ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yng ngogledd ddwyrain Cymru. Ar adeg llunio ein hadroddiad, roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi comisiwn i Cyfoeth Naturiol Cymru werthuso'r achos dros y dynodiad ac roedd cyfres o ymgyngoriadau ar y gweill.

3 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), Landscapes review: National Parks and AONBs, Medi 2019

4 DEFRA, Landscapes review: government response, Ionawr 2022

5 Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad, Rhagfyr 2021

## Arddangosyn 2: parciau cenedlaethol Cymru



Ffynhonnell: Archwilio Cymru

13 Mae’r tri pharc cenedlaethol yng Nghymru’n gorchuddio arwynebedd o 4,122 o gilometrau sgwâr. Mae hyn yn gyfystyr ag oddeutu 20% o arwynebedd tir Cymru. Dynodwyd Eryri ym 1951, yna Arfordir Penfro ym 1952 a Bannau Brycheiniog ym 1957.[6] Mae’r rhan fwyaf o’r tir o fewn parciau cenedlaethol mewn perchnogaeth breifat.

14 Mae gan Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol ddau ddiben dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (y Ddeddf):

- gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyll a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal; a
- hyrwyddo cyfleoedd i’r cyhoedd ddeall a mwynhau Nodweddion Arbennig y parc cenedlaethol.

6 Parciau Cenedlaethol Cymru: National Parks Wales

15 Mae cysyniad a elwir yn Egwyddor Sandford yn gorchymyn, lle ceir gwrthdaro rhwng y ddau ddiben hyn a lle na ellir datrys y gwrthdaro trwy reolaeth, mai’r egwyddor gyntaf sydd drechaf. Yn ychwanegol at eu dau ddiben statudol, mae dyletswydd ar APCau i gydweithredu gyda chyrff cyhoeddus eraill yn lleol i feithrin llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol heb ysgwyddo gwariant sylweddol. O dan Adran 62 y Ddeddf, rhaid i bartneriaid fel awdurdodau unedig roi ystyriaeth ddyladwy i ddibenion yr APCau yn eu gwaith hwythau.

16 Er bod eu dibenion statudol a’u dyletswydd dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn llywio llawer o waith APCau, rhaid iddynt hefyd gydymffurfio â’u rhwymedigaethau dan ofynion deddfwriaethol eraill, megis y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae cyfrifoldebau allweddol APCau yn cynnwys:

- creu cynllun rheoli’r parc cenedlaethol;
- cynnal swyddogaethau awdurdod cynllunio lleol o fewn y parc cenedlaethol; a
- gweithredu i gyflawni’r ddau ddiben a’r ddyletswydd – e.e. trwy hyrwyddo cyfleoedd i bobl gael mynediad at yr ardal a’i mwynhau a gwarchod y nodweddion sy’n gwneud yr ardal yn unigryw ac arbennig.

17 Mae cael eu llywodraethu gan awdurdod annibynnol yn gwahaniaethu parciau cenedlaethol oddi wrth dirweddau dynodedig eraill, megis Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Mae gan yr ardaloedd hyn drefniadau diogelu amgylcheddol tebyg ond nid oes gan y sefydliadau sy’n eu rheoli swyddogaethau tebyg, megis swyddogaethau cynllunio, a gedwir gan yr awdurdodau lleol perthnasol. Mae pum AHNE yng Nghymru.[7]

## Beth yw ‘llywodraethu da’?

18 Mae angen i sefydliadau’r sector cyhoeddus gael eu llywodraethu mewn modd sy’n adlewyrchu’r cyhoedd a’r amgylchedd y maent yn eu gwasanaethu. I gefnogi hyn, mae’r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Ffederasiwn Rhyngwladol y Cyfrifwyr (IFAC) wedi diffinio llywodraethu da yn y sector cyhoeddus (**Arddangosyn 3**).

7 Sef Arfordir Ynys Môn, Penrhyn Gŵyr, Pen Llŷn, Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Dyffryn Gwy. Mae Dyffryn Gwy’n gorchuddio ardal yng Nghymru a Lloegr.

**Arddangosyn 3: diffiniad o lywodraethu da**

Y trefniadau a roddir ar waith i sicrhau bod y deilliannau bwriadedig ar gyfer rhanddeiliaid yn cael eu diffinio a'u cyflawni. I gyflawni llywodraethu da yn y sector cyhoeddus, rhaid i gyrff llywodraethu ac unigolion sy'n gweithio i endidau'r sector cyhoeddus geisio cyflawni amcanion eu hendid gan weithredu er budd y cyhoedd bob amser. Mae gweithredu er budd y cyhoedd yn awgrymu rhoi'r brif ystyriaeth i'r manteision i gymdeithas, a ddylai arwain at ddeilliannau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill.

Ffynhonnell: CIPFA/IFAC

19 I wreiddio'r diffiniad hwn, mae wedi cael ei ddatblygu ymhellach yn saith egwyddor (**Arddangosyn 4**).

### Arddangosyn 4: saith egwyddor llywodraethu da

Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith.

Bod yn agored a sicrhau ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid.

Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.

Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r deilliannau bwriadedig yn y ffordd orau.

Datblygu capasiti, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddi.

Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.

Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd ac archwilio, i gyflawni atebolrwydd effeithiol.

Ffynhonnell: CIPFA/IFAC

# Argymhellion

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn. Rydym yn disgwyl i APCau a Llywodraeth Cymru dderbyn yr adroddiad hwn yn ffurfiol, ystyried ei ganfyddiadau, a monitro ymateb eu priod APC i'n hargymhellion.

**Arddangosyn 5: argymhellion**

## Argymhellion

**Cynorthwyo aelodau i gyflawni eu rôl**

A1 Mae'r adroddiad hwn yn amlygu gwendidau yn y cymorth a'r canllawiau parhaus a ddarperir i aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymell bod APCau a Llywodraeth Cymru'n cydweithio er mwyn:

- cytuno ar y cymorth a'r canllawiau a fydd yn cael eu rhoi i aelodau o APCau;
- cytuno pa elfennau o'r cymorth hwn a'r canllawiau hyn fydd yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru a pha rai y bydd APCau yn gyfrifol amdanynt; a
- chyfleu hyn yn eglur i aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru.

## Argymhellion

### Sicrhau bod enwebiadau ar gyfer aelodau'n cefnogi llywodraethu da

A2 Mae'r adroddiad hwn yn amlygu diffyg eglurder ac anghysondeb o ran sut y mae aelodau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol yn cael eu henwebu i eistedd ar APCau. Mae hefyd yn amlygu diffyg amrywiaeth ymhlith aelodau o APCau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol. I helpu i fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymell bod APCau yn gweithio gyda CLILC a Llywodraeth Cymru i:

- adolygu pa un a yw'r protocol ar gyfer enwebiadau'n dal i fod yn addas ar gyfer y diben;
- codi ymwybyddiaeth o'r protocol a sut y gall gefnogi enwebiadau; a
- hybu ei ddefnydd ymhlith awdurdodau lleol perthnasol.

### Gwella atebolrwydd ar gyfer aelodau

A3 I ddarparu sicrwydd ynghylch cyfraniad aelodau at lywodraethu APCau, ac i helpu i oleuo'r ddarpariaeth hyfforddiant a datblygiad yn y dyfodol, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, APCau ac awdurdodau lleol sy'n rhan ohonynt yn cydweithio i ddatblygu fframwaith atebolrwydd ar gyfer pob aelod o APCau sydd:

- yn gwerthuso eu cyfraniad at yr APC; ac
- yn gallu cael ei ddefnyddio i dargedu cymorth a datblygiad i alluogi aelodau o APCau i fod yn effeithiol yn eu rôl.

### Adolygu pa un a yw'r model yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd

A4 Mae'r adroddiad hwn yn amlygu gwendidau yn y modd y rhoddir y model llywodraethu ar waith a sut y mae'r materion hyn yn codi cwestiynau ynghylch ei addasrwydd. I sicrhau ei fod yn dal i fod yn addas ar gyfer y diben ac yn adlewyrchu'r heriau arbennig a gwahanol y mae pob APC yn eu hwynebu rydym yn argymell, o fewn y graddfeydd amser ar gyfer dynodi parc cenedlaethol newydd, bod Llywodraeth Cymru'n adolygu'r model llywodraethu ar gyfer APCau.

# Adroddiad manwl

## Mae gan Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol fodel llywodraethu eglur


20 Mae’r model llywodraethu ar draws y tri APC yng Nghymru wedi’i ddiffinio’n glir. Caiff cyfansoddiad eu haelodaeth ei nodi mewn deddfwriaeth[8] sy’n tanategu dynodiad parciau cenedlaethol. Mae gan bob APC 18 o aelodau:

- daw dwy ran o dair (12) o’r aelodau o blith y rhai sydd wedi’u hethol i’w hawdurdodau lleol, lle mae eu ffiniau daearyddol yn gorwedd yn gyfan gwbl neu’n rhannol o fewn y parc cenedlaethol. Bob pum mlynedd, enwebir aelodau i eistedd ar yr APC, gan adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol yr awdurdodau sy’n rhan ohono. Caiff y rhain eu nodi yn **Arddangosyn 6**.
- caiff un rhan o dair (6) o’r aelodau eu penodi gan Weinidogion Cymru i ddarparu ffocws cenedlaethol ac i sicrhau bod digon o arbenigedd technegol.

21 Mae hyn yn golygu bod model llywodraethu APCau wedi’i fwriadu i ddarparu atebolrwydd democrataidd trwy gynnwys cynrychiolwyr etholedig o gymunedau lleol, ac arbenigedd strategol a sector trwy aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru.

8 Deddf yr Amgylchedd 1995 (legislation.gov.uk)

**Arddangosyn 6: y prif awdurdodau lleol sy’n enwebu aelodau ar gyfer parciau cenedlaethol Cymru**



**Eryri**

- Gwynedd (9 aelod)
- Conwy (3 aelod)

**Arfordir Penfro**

- Sir Benfro (12 aelod)

**Bannau Brycheiniog**

- Blaenau Gwent (un aelod)
- Sir Gâr (un aelod)
- Merthyr Tudful (un aelod)
- Powys (chwe aelod)
- Rhondda Cynon Taf (un aelod)
- Torfaen (un aelod)
- Sir Fynwy (un aelod)

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

22 Mae gan Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol strwythurau pwyllgorau sy’n eglur ac sydd wedi hen ennill eu plwyf. Y tu hwnt i’r model llywodraethu bras a nodir yn Neddf yr Amgylchedd 1995, mae gan bob APC ddisgresiwn i sefydlu strwythur pwyllgorau sy’n rhoi’r adlewyrchiad gorau o’u gofynion yn lleol. Amlinellir y strwythurau hyn yn **Arddangosyn 7**. Mae gan bob APC strwythur is-bwyllgorau hefyd i gefnogi ei bwyllgorau allweddol, ac mae gweithgorau wedi’u sefydlu hefyd, yn aml i ymdrin â materion penodol neu i oruchwylio prosiectau neu asedau penodol. Mae’r rhain yn darparu cyfleoedd i aelodau graffu’n fwy manwl, mewn amser real, o’i gymharu â phan fo eitemau’n cael eu cyflwyno i aelodaeth ehangach (e.e. yng nghyfarfodydd yr Awdurdod llawn). Trwy ein cyfweliadau a’n hadolygiadau o ddogfennau canfuom fod y strwythurau hyn wedi hen ennill eu plwyf a bod ganddynt gylchoedd gorchwyl eglur sy’n adlewyrchu gofynion statudol a ffrydiau gwaith allweddol APCau. Mae hyn yn golygu bod strwythurau pwyllgorau APCau yn eu helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol.

**Arddangosyn 7: strwythurau pwyllgorau Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol**

| Pwyllgorau | Eryri | Bannau Brycheiniog | Arfordir Penfro |
|---|---|---|---|
| Awdurdod Llawn | ✓ | ✓ | ✓ |
| Pwyllgor Cynllunio / Rheoli Datblygu | ✓ | ✓ | ✓ |
| Pwyllgor Safonau | ✓ | ✓ | ✓ |
| Pwyllgor Archwilio a Risg | | ✓ | |
| Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad | | ✓ | |
| Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau | ✓ | | |
| Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Gorfforaethol | | | ✓ |
| Pwyllgor Adolygu Gweithredol | | | ✓ |
| Pwyllgor Adnoddau Dynol | | | ✓ |
| Pwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy | | ✓ | ✓ |
| Pwyllgor Cadeiryddion | | ✓ | |
| Pwyllgor Cymorth a Datblygu Aelodau | | | ✓ |
| **Cyfanswm nifer y pwyllgorau allweddol:** | **4** | **7** | **8** |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

23 Mae cynlluniau dirprwyo Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol yn darparu eglurder ynghylch cyfrifoldebau am wneud penderfyniadau. Er enghraifft, canfuom fod cynllun dirprwyo newydd wedi cael ei fabwysiadu’n ddiweddar yn APC Bannau Brycheiniog. Mae hwn wedi helpu i egluro rolau a gofynion a darparu hyblygrwydd ychwanegol (e.e. o ran ymwneud yr aelodau â gweithgorau penodol). Yn yr un modd, fe adolygodd APC Eryri ei weithdrefnau llywodraethu’n ddiweddar i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y diben yng ngoleuni newidiadau i ffyrdd o weithio yn dilyn pandemig Covid-19. Mae eglurder ynghylch cyfrifoldebau allweddol mewn perthynas â gwneud penderfyniadau’n agwedd hanfodol ar lywodraethu da.

## Mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn cydnabod gwerth cydweithio ond mae llywodraethu trwy strwythurau partneriaethau cymhleth yn dwyn heriau

24 Mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn dangos ymrwymiad cryf i weithio mewn partneriaeth. Er enghraifft, dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi amlygu llwyddiannau APCau o ran sefydlu partneriaethau lleol gyda phartneriaid allweddol i fwrw ymlaen gyda'u nodau a'u hamcanion. Mae'r rhain yn cynnwys Croeso Sir Benfro[9] a Fforwm Eryri[10]. Mae hyn yn golygu bod gweithio mewn partneriaeth yn ganolog i ffordd o weithio pob APC ac yn bwysig i ateb gofynion deddfwriaethol allweddol ac osgoi dyblygu.

25 Mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn dibynnu ar eu dylanwad a'u gallu i gynnull partneriaethau i helpu i reoli'r heriau sy'n wynebu parciau cenedlaethol. Fodd bynnag, cyfyngedig yw eu rôl mewn rhai partneriaethau statudol. Er enghraifft, mae rôl APCau ar Gydbwyllgorau Corfforedig yn gyfyngedig i faterion cynllunio strategol. Ac er eu bod yn gallu cynnwys APCau mewn meysydd gwaith eraill, dim ond un o'r pedwar Cydbwyllgor Corfforedig sydd wedi achub y cyfle i wneud hyn.[11] Mae hyn yn creu risg o gwtogi ar ddylanwad APCau mewn meysydd allweddol. Mae hyn yn broblem oherwydd, fel a amlygwyd yn ein hadolygiadau diweddar o dwristiaeth gynaliadwy[12], bod materion o fewn cylch gwaith ehangach Cydbwyllgorau Corfforedig, megis seilwaith teithio i gefnogi'r economi ymwelwyr, yn effeithio'n sylweddol ar y galw sydd ar APCau.

26 Mae gwasanaethu strwythurau partneriaethau'n rhoi pwysau ar gapasiti. Er enghraifft, mae APC Bannau Brycheiniog, oherwydd ei leoliad, yn rhan o dri Cydbwyllgor Corfforedig a dau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)[13]. Trwy ein cyfweliadau canfuom fod hyn yn rhoi baich sylweddol ar gapasiti uwch swyddogion. Mewn sefydliadau cymharol fach fel APCau, ceir hefyd nifer cyfyngedig o uwch swyddogion i ddirprwyo dros eraill mewn cyfarfodydd. Ar y cyd â rôl a dylanwad cyfyngedig APCau mewn rhai partneriaethau statudol, mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch gwerth mynychu yng nghyd-destun ehangach adnoddau sy'n lleihau a phwysau ar gapasiti.

9 Partneriaeth rheoli cyrchfan a sefydlwyd rhwng APC Arfordir Penfro a Chyngor Sir Penfro yw Croeso Sir Benfro.

10 Partneriaeth o randdeiliaid allweddol a sefydlwyd i ddatblygu a gweithredu cynllun rheoli parc cenedlaethol APC Eryri, Cynllun Eryri, yw Fforwm Eryri.

11 Cydbwyllgorau Corfforedig - sylwebaeth ar eu cynnydd

12 Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru | Archwilio Cymru

13 Mae'r ardal a orchuddir gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn golygu bod yr APC yn un o'r partneriaid a wahoddir ar bedwar BGC ond mae'n aelod o ddau ar hyn o bryd – BGC Powys a BGC Sir Gâr.

## Mae gwasanaethu gofynion llywodraethu'n creu risg o roi pwysau ar gapasiti swyddogion

27 Ceir perthnasoedd gweithio adeiladol rhwng aelodau a swyddogion mewn APCau. Trwy ein cyfweliadau a'n harsylwadau ar gyfarfodydd canfuom fod aelodau'n gweithredu'n golegol gan mwyaf a phan ydynt yn herio swyddogion, eu bod yn gwneud hynny'n adeiladol ac yn briodol. Nid felly yr oedd hi bob amser ym mhob APC. Er enghraifft, cyfrannodd ymddygiad aelodau at y methiannau sylweddol mewn trefniadau llywodraethu a amlygwyd yn APC Bannau Brycheiniog dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, yn dilyn trosiant sylweddol yn yr aelodaeth, canfuom fod Aelodau yn APC Bannau Brycheiniog bellach yn canolbwyntio ar ailadeiladu a chynnal perthnasoedd da â'i gilydd ac â swyddogion. Mae perthnasoedd gweithio adeiladol yn bwysig i ategu diwylliant llywodraethu cryf.

28 Er gwaethaf hyn, nid yw aelodau wastad yn dangos hyder wrth ddarparu cyfeiriad strategol a her gadarn i swyddogion. Yn arbennig, trwy ein cyfweliadau a'n harsylwadau canfuom nad yw'r holl aelodau'n deall yn glir beth yw eu rôl ac yn gallu cyfrannu'n llawn at brosesau penderfynu.

29 Gall gwasanaethu trefniadau llywodraethu APC (er enghraifft, cefnogi'r ystod o gyfarfodydd pwyllgorau) fod yn adnodd-ddwys. Ceir gofynion adrodd sylweddol ar gyfer Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol hefyd. Er enghraifft, fel Awdurdodau Lleol Dibenion Arbennig, rhaid i APCau baratoi datganiadau ariannol manwl yn unol â chanllawiau CIPFA, er bod cyllidebau refeniw a chyfalaf APCau yn llai o lawer na rhai'r holl brif gynghorau. Mae pwysau ar gapasiti'n creu risgiau bod gan swyddogion amser cyfyngedig i roi i'r aelodau y cymorth y mae ei angen arnynt i lywodraethu'n effeithiol.

30 Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio hybu capasiti i ategu trefniadau llywodraethu ar draws APCau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae wedi cyllido swydd ar-y-cyd ganolog i arwain ar faterion cynhwysiant, amrywiaeth a llywodraethu. Mae'r rôl hon, a letyir gan APC Arfordir Penfro, yn gweithio ar draws pob un o'r tri APC ac yn darparu llwyfan i gynyddu capasiti trwy adnodd a rennir ac i wella llywodraethu cyfunol. Yn benodol, mae'r rôl wedi'i bwriadu i helpu i gydlynu hyfforddiant i aelodau, ategu trefniadau llywodraethu, hybu amrywiaeth, cynyddu amrywiaeth ymwelwyr â thirweddau dynodedig a helpu APCau i ymateb i fentrau polisi allweddol gan Lywodraeth Cymru.


## Ceir risg bod gwendidau mewn prosesau i ddethol aelodau etholedig yn tanseilio llywodraethu da

31 Ceir anghysonderau o ran sut y caiff cynghorwyr eu dethol i eistedd ar APCau. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), ynghyd â’r tri APC, wedi datblygu protocol[14] i gynorthwyo awdurdodau lleol i benderfynu pa aelodau etholedig ddylai gael eu henwebu i eistedd ar APCau. Mae’r protocol hwn yn nodi y dylid gwneud penodiadau yn ôl y cydbwysedd gwleidyddol o fewn yr awdurdod lleol a’i bod yn ddymunol bod y rhai a enwebir yn cynrychioli wardiau sydd wedi’u lleoli’n gyfan gwbl neu’n rhannol o fewn ffiniau’r parc cenedlaethol. Mae **Arddangosyn 8** yn amlygu’r ystyriaethau allweddol a nodir yn y protocol. Trwy ein cyfweliadau canfuom nad yw’r protocol yn cael ei ddilyn yn gyson. Mae hyn yn cyflwyno nifer o broblemau:

- awdurdodau lleol sy’n rheoli pwy gaiff eu henwebu, ac yn aml mae aelodau’n cael eu henwebu o wardiau etholiadol sydd y tu allan i ffiniau’r parc cenedlaethol ac sydd heb ryw lawer o gysylltiad â materion lleol a strategol sy’n effeithio ar APCau. Er enghraifft, ar adeg ein hadolygiad ni, nid oedd bron i draean o’r aelodau etholedig perthnasol yn cynrychioli wardiau cynghorau o fewn ffiniau parc cenedlaethol.
- ni roddir blaenoriaeth bob amser i ystyried y sgiliau a’r priodoleddau sy’n angenrheidiol i gyfrannu’n effeithiol at lywodraethu APCau.
- mae awydd aelodau o awdurdodau lleol i wasanaethu ar APC yn amrywio’n sylweddol. Mewn rhai, mae nifer o gynghorwyr yn awyddus i wasanaethu ar APC ac felly mae gan yr awdurdod lleol gronfa ehangach o ddarpar aelodau i ddewis ohonynt. Mewn awdurdodau lleol eraill, mae llai o gystadleuaeth am y rôl – er enghraifft, dywedodd aelodau o rai APCau sy’n cynrychioli awdurdodau lleol eu bod ar yr APC am “nad oedd ar neb arall eisiau mynd arno” a’u bod nhw yno i “sicrhau bod digon o niferoedd”.

14 Protocol ar gyfer Enwebiadau i Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol

**Arddangosyn 8: ystyriaethau allweddol i awdurdodau lleol wrth enwebu cynghorwyr i eistedd ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, fel a nodir yn y protocol**




Ffynhonnell: Protocol ar gyfer Enwebiadau i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol

32 Ceir diffyg amrywiaeth ymhlith aelodau o APCau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol. Er enghraifft, dengys **Arddangosyn 9**, ar adeg ein hadolygiad, fod 72% o'r aelodau o APCau a oedd yn cynrychioli awdurdodau lleol yn ddynion a 28% yn fenywod, er bod hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng APCau (a'i fod, yn wir, yn gyfartal yn APC Eryri). Hefyd, nid oedd yr un aelod o awdurdod lleol a oedd yn eistedd ar APC ar adeg ein hadolygiad yn dod o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Lleiafrifol. Yn ein cyfweliadau ni gyda swyddogion APCau, clywsom bryderon nad yw'r broses benodi a ddefnyddir gan awdurdodau lleol yn helpu gyda hyn, gan na roddir rhyw lawer o ystyriaeth i wella amrywiaeth aelodaeth APCau. Mae'r diffyg amrywiaeth yn broblem oherwydd, fel a amlygwyd yn 2014 yn adroddiad y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, mae'n "bwysig felly bod y bobl sy'n gwneud penderfyniadau ar ein rhan… yn deall eu cymunedau lleol ac yn gynrychioliadol ohonynt."[15]

15 Ar ôl pwyso a mesur: Sicrhau democratiaeth amrywiol mewn llywodraeth leol yng Nghymru – adroddiad y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth (llyw.cymru)

**Arddangosyn 9: dosbarthiad y rhywiau ymhlith y 36 o aelodau o APCau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol**

| Awdurdod Parc Cenedlaethol | Nifer yr aelodau ALI sy'n fenywod | Nifer yr aelodau ALI sy'n ddynion |
|---|---|---|
| Bannau Brycheiniog | 0 | 12 |
| Eryri | 6 | 6 |
| Arfordir Penfro | 4 | 8 |
| **Cyfanswm** | **10** | **26** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o aelodau APCau ym mis Medi 2023

## Mae gan Lywodraeth Cymru broses gymharol drylwyr ar gyfer penodi aelodau, ond cyfyngedig yw'r cymorth parhaus i aelodau a benodwyd

33 Mae'r broses ddethol ar gyfer aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru'n drylwyr o'i gymharu â sut y caiff aelodau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol eu dethol. Mae ymgeiswyr yn mynd trwy asesiad cystadleuol sy'n cynnwys Cadeirydd yr APC perthnasol, Dirprwy Gyfarwyddwr yn Llywodraeth Cymru, ac aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Caiff y broses ei rheoleiddio a'i goruchwylio gan Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus (OCPA) a'i gweinyddu gan y Tîm Noddi APCau yn Llywodraeth Cymru, gan ymgynghori â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus. Dim ond am wyth mlynedd (dau gyfnod o bedair blynedd) y gall aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru wasanaethu ar APCau, er y gall y Gweinidog ganiatáu estyniad i'w cyfnod yn y rôl gan ddibynnu ar berfformiad ac anghenion busnes. Cytunir ar estyniadau o'r fath trwy eithriad a rhaid iddynt gael eu cadarnhau gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

34 Fel arfer mae aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru'n eistedd ar APCau am eu cyfnod llawn yn y rôl sy'n darparu parhad ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i benodi aelodau yn eu lle mewn ffordd wedi'i chynllunio. Roedd aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru y siaradom ni gyda hwy'n siarad yn gadarnhaol gan mwyaf am y broses benodi. Fodd bynnag, er gwaethaf cryfderau proses benodi Llywodraeth Cymru, o ystyried y gymhareb rhwng aelodau penodedig ac etholedig, mae ei heffaith yn gyfyngedig i un rhan o dair o'r aelodaeth.

35 Ar adeg ein hadolygiad, nid oedd rhyw lawer o gymorth parhaus i aelodau gan Lywodraeth Cymru yn dilyn eu penodi. Canfuom hefyd nad oedd eu rôl yn glir i rai aelodau ar ôl eu penodi a'u bod yn teimlo'u bod yn cymryd cryn dipyn o amser i ymgyfarwyddo â'r rôl a chyfrannu at brosesau penderfynu. Mae hyn yn golygu, er gwaethaf ei phroses benodi drylwyr, nad yw Llywodraeth Cymru'n gwybod a yw'r aelodau y mae'n eu penodi'n cael cymorth digonol ac yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.

36 O ganlyniad, ceir diffyg eglurder o ran pwy sy'n gyfrifol am ddarparu gwybodaeth ar gyfer aelodau newydd a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, er bod peth tystiolaeth o APCau yn ceisio adnabod gofynion datblygu aelodau, canfuom nad yw hi wastad yn glir iddynt beth ddylent ei gynnwys yn eu cynlluniau hyfforddiant a sefydlu ar gyfer aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. Canfuom hefyd fod aelodau'n gallu teimlo wedi'u hynysu a heb gymorth yn eu rôl o ganlyniad. Ceir risg y bydd hyn yn tanseilio gwerth yr arbenigedd strategol a'r safbwynt cenedlaethol y mae aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'u bwriadu i'w cynnig.

37 Fe wnaeth ein hadroddiad ar Raglen Newid APC Bannau Brycheiniog ym mis Chwefror 2021[16] amlygu, 'unwaith y gwneir penodiad i Awdurdod Parc Cenedlaethol, ychydig o gymorth parhaus a roddir gan Lywodraeth Cymru. Gall hyn olygu bod aelodau'n ddiamddiffyn, yn enwedig pan ydynt yn wynebu heriau sylweddol'. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â rhai o'r gwendidau hyn yn llythyr Tymor y Llywodraeth 2022 gan y Gweinidog Newid Hinsawdd.[17] Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud peth cynnydd o ran cefnogi aelodau yn ystod 2023-24, er enghraifft trwy ddarparu hyfforddiant ar gyfer yr holl aelodau ar lywodraethu, tirweddau i bawb a'r argyfyngau natur a hinsawdd.

38 Mae hyn yn bwysig gan bod diffyg eglurder a chymorth ac arweiniad ar ôl penodi'n creu risgiau sylweddol i lywodraethu da. Er enghraifft, gall olygu nad yw aelodau'n deall eu rôl a'u bod felly'n methu â chymryd rhan yn effeithiol yn y broses benderfynu.

16 Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – Cyflawni'r Rhaglen Newid, Chwefror 2021

17 Y Gweinidog Newid Hinsawdd sydd â chyfrifoldeb am barciau cenedlaethol ac mae'n nodi ei blaenoriaethau allweddol ar gyfer APCau mewn llythyr Tymor y Llywodraeth.

## Mae'n aneglur i ba raddau y mae aelodau'n cael eu dwyn i gyfrif am eu cyfraniad at lywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol

39 Ceir presenoldeb da mewn cyfarfodydd gan aelodau o APCau. Mae disgwyl iddynt fynychu o leiaf 75% o gyfarfodydd APCau ac mae aelodau, ar gyfartaledd, yn mynychu mwy na'r lleiafswm a ddisgwylir (**Arddangosyn 10**). Dengys dadansoddiad o'r data presenoldeb fod Aelodau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol yn mynychu fwy neu lai yr un mor aml ag aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Arddangosyn 10: presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol**

| Awdurdod Parc Cenedlaethol | Presenoldeb mewn cyfarfodydd ar gyfartaledd gan aelodau ALI % | Presenoldeb mewn cyfarfodydd ar gyfartaledd gan aelodau LIC % |
|---|---|---|
| Bannau Brycheiniog | 82 | 82 |
| Eryri | 84 | 76 |
| Arfordir Penfro | 92 | 93 |
| **Ar y cyfan** | **86** | **84** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o bresenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod 2022-23

40 Ceir trefniadau ffurfiol i oruchwylio ymddygiad aelodau. Er enghraifft, gweithdrefnau chwythu'r chwiban a chwynion, protocolau ymddygiad a phwyllgorau safonau sydd wedi'u sefydlu i ymdrin â chwynion. Mae hyn yn golygu bod APCau wedi sefydlu'r rhwystrau a gwrthbwysau gofynnol i helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol a darparu sicrwydd y byddid yn ymdrin yn y ffordd briodol ag unrhyw gamwedd neu achosion posibl o dorri codau ymddygiad.

41 Y tu hwnt i hyn, serch hynny, nid oes trefniadau eglur i oruchwylio effeithiolrwydd cyfraniadau aelodau o APCau a sut y maent yn perfformio yn eu rôl. Er bod Llywodraeth Cymru'n ceisio adborth gan APCau ar berfformiad penodeion yn flynyddol, nid yw'r ymarfer hwn wastad yn cael ei gynnal yn ymarferol a gall ei effaith fod yn gyfyngedig. Er enghraifft, trwy ein cyfweliadau ni, mynegodd rhai aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru bryderon ynghylch adolygiad Llywodraeth Cymru o'u perfformiad, gan amlygu diffyg adborth ar eu heffeithiolrwydd a sut y gallent wella yn eu rôl. Yn yr un modd, nid yw cyfraniad aelodau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol yn cael ei werthuso'n gyson. Mae hyn yn golygu, er ei bod yn rôl y telir cydnabyddiaeth ariannol[18] am ei chyflawni, nad yw APCau yn gallu dangos y gwerth am arian a ddarperir trwy gyfraniadau aelodau.

42 Mae'r diffyg adborth ar berfformiad hefyd yn creu risg nad oes gan APCau ddealltwriaeth dda am anghenion hyfforddi a datblygu'r aelodau. Canfuom, er bod rhai APCau yn cynnal arolygon mewn ymgais i oleuo rhaglenni hyfforddi aelodau, nad yw'r rhain wastad yn cael cyfraddau ymateb da. Amlygodd swyddogion bresenoldeb gwael gan aelodau mewn cyrsiau hyfforddi a ddarperir hefyd. Mae hyn yn creu risg o danseilio llywodraethu da am nad oes gan aelodau ddealltwriaeth eglur am eu rolau ac nad ydynt wedi'u harfogi i gyflawni swyddogaethau allweddol yn effeithiol.

## Mae gwendidau o ran sut y mae'r model llywodraethu'n cael ei roi ar waith yn codi cwestiynau ynghylch ei addasrwydd

43 Mae'r model llywodraethu ar gyfer APCau wedi'i fwriadu i gyfuno atebolrwydd democrataidd ag arbenigedd strategol a safbwyntiau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae gwendidau o ran sut y mae'n cael ei roi ar waith yn golygu nad yw cryfderau'r model 'ar bapur' wastad yn dilyn yn ymarferol. Mae hyn yn codi cwestiynau ynglŷn ag addasrwydd y model. Mae **Arddangosyn 5** yn amlygu ein hargymhellion yn dilyn yr adolygiad hwn, gan gynnwys ein disgwyliad bod Llywodraeth Cymru'n adolygu a yw'r model llywodraethu ar gyfer APCau yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd. Byddai'n ddoeth i Lywodraeth Cymru fyfyrio ynghylch y materion hyn yng nghyd-destun a graddfeydd amser ei hymrwymiad i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd ar gyfer Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

18 Telir cyflog sylfaenol o £4,738 y flwyddyn i bob aelod am gyflawni ei rôl, sy'n adlewyrchu tybiaeth bod disgwyl iddynt wneud o leiaf 44 diwrnod o waith bob blwyddyn. Gan ddefnyddio'r ffigwr hwn, gyda'i gilydd mae aelodau ar draws y tri APC yn cael cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol o oddeutu £250,000 y flwyddyn. Mae rhai aelodau'n cael cyflog ychwanegol – e.e. mae cadeiryddion awdurdodau a phwyllgorau'n cael uwch gyflog ar ben eu cyflog sylfaenol. Rhaid i APCau gyhoeddi datganiad blynyddol o gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau.

# Atodiadau

1 Cwmpas, ymagwedd a dulliau'r archwiliad

# 1 Cwmpas, ymagwedd a dulliau'r archwiliad

**Cwmpas**

Roeddem yn ceisio ateb y cwestiwn 'A oes gan awdurdodau lleol dibenion arbennig yng Nghymru drefniadau llywodraethu effeithiol sy'n ategu deilliannau da ar gyfer dinasyddion?'

I ateb y cwestiwn hwn, fe wnaethom fwrw golwg ar strwythurau llywodraethu, y model llywodraethu, sut y mae aelodau a swyddogion yn gweithio o fewn strwythurau, a'r dulliau a ddefnyddir i adolygu a gwella trefniadau llywodraethu.

Ni wnaethom fwrw golwg ar ymddygiad aelodau na swyddogion unigol, ac nid ydym wedi llunio casgliadau ynghylch pob APC yn unigol. Nid ydym ychwaith wedi asesu trefniadau llywodraethu AHNEoedd, prif awdurdodau lleol, na chyrff eraill, ar gyfer yr adolygiad hwn.

**Ymagwedd**

Ein hymagwedd yn yr archwiliad hwn fu deall sut y mae strwythurau llywodraethu ym mhob Awdurdod 'ar bapur', sut y maent mewn gwirionedd, ac yna sut y cânt eu hadolygu. Ein nod oedd darparu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd llywodraethu yn APCau Cymru ar y cyfan.

Fe wnaethom reoli ein gwaith maes gan fod yn ystyriol o'r pwysau a wynebir gan swyddogion ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys adfer wedi COVID-19, yr argyfwng costau byw, a phwysau ar gapasiti swyddogion a nodwyd yn ein hadroddiad. Fe wnaethom sicrhau bod cwmpas ein gwaith yn ddigon i roi trosolwg o'r sector cyfan ond ni wnaethom amharu ar ddarparu gwasanaethau. Fe weithiom ni'n hyblyg i drefnu ein gwaith maes gyda swyddogion.

Goleuwyd ein hymagwedd gan yr egwyddorion llywodraethu da a gyhoeddwyd gan CIPFA ac IFAC. Caiff y rhain eu hamlinellu yn yr adroddiad uchod (**Arddangosyn 4**).

## Dulliau

Cwblhawyd ein gwaith maes rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2023, gan ddefnyddio'r dulliau canlynol:

- adolygu dogfennau – fe wnaethom adolygu dogfennau llywodraethu allweddol gan bob APC. Roedd y rhain yn cynnwys rheolau sefydlog, swydd ddisgrifiadau swyddogion allweddol, cyfansoddiadau, cylchoedd gorchwyl, a phapurau pwyllgorau. Roedd hyn hefyd yn cynnwys y llythyr cylch gwaith blynyddol a anfonir at bob APC gan Lywodraeth Cymru.
- cyfweliadau lleol – fe wnaethom gyfweld ag uwch swyddogion ac aelodau o bob APC.
- cyfweliadau cenedlaethol – fe wnaethom drafod ein hadolygiad gyda Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chael safbwyntiau gan ddau APC yn Lloegr.
- arolygon – fe gynhaliom ni arolwg o uwch swyddogion sy'n rhyngweithio'n rheolaidd ag aelodau. Fe gawsom 26 o ymatebion (65%). Fe wnaethom hefyd arolygu aelodau o APCau a chael 28 o ymatebion (53%).
- arsylwadau – fe arsylwom ni ar bum cyfarfod ym mhob APC, a oedd yn cynnwys ystod o gyfarfodydd gan yr Awdurdodau Llawn, Pwyllgorau Cynllunio a phwyllgorau eraill.
- adolygu gwefannau – fe wnaethom adolygu gwefan pob APC, yn ogystal â gwefannau perthnasol eraill, megis rhai CLILC, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.